

# CYNGOR SIR Y FFLINT

---

Polisi Taliad Disgresiwn at Gostau Tai

2015



## **1. Pwrpas y Polisi**

**1.1** Pwrpas y polisi hwn yw nodi dull Cyngor Sir y Fflint (CSFf) o ymdrin â cheisiadau am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai o fis Ebrill 2015.

**1.2** Wrth roi'r polisi hwn ar waith byddwn yn ystyried y Rheoliadau Cymorth Ariannol Dewisol (2001) (OS 2001/1167) a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn y Llawlyfr Canllawiau ar Daliad Disgresiwn at Gostau Tai (Llawlyfr Canllawiau). Mae CSFf wedi ymgysylltu â 19 o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru i ddatblygu Fframwaith Polisi.

**1.3** Mae'r Polisi yn cwmpasu penderfyniadau'r cyngor, ac felly'n darparu llwyfan ar gyfer arfer disgresiwn. Wrth greu'r polisi Taliad Disgresiwn at Gostau Tai, rydym wedi ystyried amcanion allweddol a strategaeth gyffredinol y fframwaith polisi hwn.

**1.4** Nid yw'n bosibl (ac nid yn fwriad) gwneud dyfarniad ym mhob achos lle mae diffyg o'r fath. Felly mae fframwaith y polisi yn ffordd o helpu i benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer talu pan fydd y galw yn fwy na'r cyflenwad (dyma'r achos fel arfer).

**1.5** Mae Fframwaith y Polisi wedi'i greu i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o ddyraniad y Taliad Disgresiwn at Gostau Tai, drwy wneud penderfyniadau sydd â'r nod o wella canlyniadau i bobl.

## **2. Cyflwyniad**

**2.1** Mae Taliad Disgresiwn at Gostau Tai yn swm dewisol sy'n daladwy gan y Cyngor i unigolyn sy'n cael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. Telir Taliad Disgresiwn at Gostau Tai o gyllideb sefydlog a'r nod yw helpu pobl i dalu costau tai, fel arfer lle mae diffyg rhwng eu Budd-dal Tai (neu'r elfen dai o Gredyd Cynhwysol) a'u rhent.

**2.2** Rheoleiddir Taliad Disgresiwn at Gostau Tai gan Reoliadau Cymorth Ariannol Dewisol 2001 (OS 2001 Rhif 1167) lle caniateir llawer o ddisgresiwn i Gyngor. Bydd CSFf yn gweinyddu'r cynllun gan gyfeirio at gynnwys y polisi hwn.

## **3. Datganiad o amcanion allweddol**

**3.1** Mae ein hamcanion yn cynnwys:

1. Annog a helpu i gadw pobl mewn cyflogaeth;
2. Atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i gadw tenantiaeth gynaliadwy;
3. Helpu pobl sy'n ceisio helpu eu hunain;
4. Helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd;
5. Cefnogi pobl ddiamddiffyn yn y gymuned;
6. Helpu pobl drwy adegau pan fyddant dan straen ac yn ddiamddiffyn;
7. Helpu i liniaru tlodi;
8. Helpu pobl sydd dan anfantais yn benodol oherwydd Diwygiadau i'r Gyfundrefn Les;
9. Rhoi penderfyniad mor deg a chyson â phosibl i bob ymgeisydd;

10. Cefnogi dioddefwyr trais domestig sy'n ceisio symud i fan diogel;
11. Cefnogi'r rhai diamddiffyn neu'r henoed yn y gymuned leol;
12. Helpu cwsmeriaid drwy ddigwyddiadau personol ac anodd;
13. Cefnogi pobl ifanc wrth bontio i fyd oedolion;
14. Rhoi mwy o flaenoriaeth i'r rhai sy'n ymdrechu i helpu eu hunain;
15. Atal canlyniadau fel digartrefedd sy'n debygol o olygu mwy o galedi i'r cartref yn ogystal â chostau ychwanegol y gellir eu hosgoi i'r cyngor.

**3.2** Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymrwymo i ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau unigol, gan weithredu'n deg, yn rhesymol ac yn gyson.

**3.3** Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn bydd yn rhaid i CSFf flaenoriaethu yn ystod y broses hon. Y blaenoriaethau yw:

- Amgylchiadau ariannol yr aelwyd
- I ba raddau y gall aelodau o'r aelwyd reoli eu sefyllfa ac yn fodlon gwneud hynny
- Y goblygiadau ariannol a chymdeithasol ehangach os na ddyfernir taliad

#### **4. Sut i wneud cais am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai**

**4.1** Gellir gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig ar y ffurflen hawlio swyddogol neu mewn fformat arall os yw'n cynnwys gwybodaeth addas y gellir gwneud penderfyniad arni. Gellir cyflwyno ceisiadau am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai ar-lein ar ein gwefan <http://www.siryfflint.gov.uk/> <<http://www.flintshire.gov.uk/>> neu drwy e-bost - [benefits@flintshire.gov.uk](mailto:benefits@flintshire.gov.uk) <<mailto:benefits@flintshire.gov.uk>>, dros y ffôn (01352) 704848, neu drwy Swyddfeydd Sir y Fflint yn Cysylltu sydd yn y Sir.

#### **5. Dyfarnu Taliad Disgresiwn at Gostau Tai**

**5.1** Gellir dyfarnu Taliad Disgresiwn at Gostau Tai am unrhyw gyfnod ac fel arfer caiff ei dalu o'r dydd Llun sy'n dilyn y diwrnod y bydd yr awdurdod wedi cael y ffurflen gais.

**5.2** Gall CSFf ddewis ôl-ddyddio unrhyw gais am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai; gan ystyried amgylchiadau'r cwsmer ar y pryd a'r arian sydd ar gael. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n hawlio fod yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y cyfnod cyfan y gwneir cais i ôl-ddyddio.

**5.3** Ar gyfer pob cais, bydd asesiad ariannol yn cael ei wneud, gan gymharu incwm â gwariant. Ni ddiystyrir unrhyw ffynhonnell incwm a chymerir yr holl wariant i ystyriaeth. Os oes rhai nad ydynt yn ddibynyddion yn y cartref efallai y bydd disgwyl iddynt gyfrannu mwy. Yr egwyddor yw y dylid rhoi cymorth i'r rhai nad oes ganddynt unrhyw fodd arall o ddiwallu'r angen.

**5.4** Yna cynhelir asesiad i weld a yw cyfanswm gwariant yr aelwyd yn hafal i'w hincwm neu'n fwy. Os oes incwm ar gael, neu y gallai fod ar gael, sy'n ddigonol i fodloni'r diffyg mewn rhent, neu angen tai arall, ni fydd cais am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai yn llwyddiannus, oni bai neu hyd nes y bydd amgylchiadau'n newid.

**5.5** Os oes rhywfaint o incwm ar gael, ond nad yw'n ddigon i fodloni'r diffyg yn y rhent, a bod y cais am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai yn llwyddiannus, bydd y swm hwn yn cael ei dynnu o'r dyfarniad.

**5.6** Yn aml, gellir defnyddio Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn fwyaf effeithiol fel mesur dros dro tra bod aelwyd yn ceisio ateb mwy hirdymor i'r sefyllfa y maent ynddi. Lle bo hyn yn bosibl, rhoddir blaenoriaeth uwch i'r rhai sy'n cymryd camau eu hunain, h.y. y rhai sydd ag ystafell sbâr sy'n symud i lety llai.

**5.7** Mae rhai aelwydydd nad ydynt yn helpu eu hunain ar hyn o bryd a bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweithio i gynorthwyo'r rhai sy'n fodlon dechrau gwneud hynny. Yn yr achosion hyn, gall y Taliad Disgresiwn at Gostau Tai fod yn amodol ar gymryd camau penodol, h.y. derbyn atgyfeiriad a gweithio gyda chynghorydd dyled.

**5.8** Fodd bynnag, mae sefyllfaoedd lle gall fod angen Taliad Disgresiwn at Gostau Tai am gyfnod hwy, ar gyfer y rhai na allant liniaru'r sefyllfa y maent ynddi eu hunain. Bydd yr aelwydydd hyn hefyd yn cael blaenoriaeth uchel.

## **6. Taliad a Hysbysiad**

**6.1** Bydd CSFf yn talu Taliad Disgresiwn at Gostau Tai drwy BACS yn yr un modd ag y telir Budd-dal Tai. Ynghyd â hysbysiad o ddyfarniadau llwyddiannus ac aflwyddiannus, bydd datganiad yn egluro'r rheswm dros y penderfyniad. Bydd y llythyr yn cynnwys manylion gwerth unrhyw ddyfarniad, hyd y dyfarniad ac i bwy y telir y Taliad Disgresiwn at Gostau Tai.

**6.2** Bydd y llythyr yn sicrhau bod cwsmeriaid llwyddiannus yn gwybod pryd i roi gwybod am newidiadau perthnasol. Ar gyfer ceisiadau aflwyddiannus, bydd hefyd yn rhoi esboniad o'r rhesymau pam bod y cais wedi bod yn aflwyddiannus fel y gall y sawl sy'n gwneud cais ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwn os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## **7. Adolygiad o Benderfyniadau**

**7.1** Nid yw Taliad Disgresiwn at Gostau Tai yn daliad Budd-dal Tai ac felly nid yw'n ddarostyngedig i'r weithdrefn apeliadau statudol. Fodd bynnag, mae gan CSFf broses adolygu. Bydd CSFf yn ystyried ceisiadau i adolygu penderfyniad am y rhesymau canlynol:

- penderfyniad i beidio â dyfarnu Taliad Disgresiwn at Gostau Tai,
- penderfyniad i ddyfarnu swm gostyngol neu Daliad Disgresiwn at Gostau Tai is,
- penderfyniad i beidio ag ôl-ddyddio Taliad Disgresiwn at Gostau Tai neu
- benderfyniad y bu gordaliad Disgresiwn at Gostau Tai.

Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei drin gan uwch swyddog i'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol. Os bydd yr unigolyn yr effeithir arno yn dal i fod yn anfodlon, bydd y Rheolwr Budd-daliadau yn gwneud penderfyniad terfynol

**7.2** Dylai hawliwr (neu ei benodai neu asiant) ofyn am adolygiad, yn ysgrifenedig, o fewn un mis calendr i benderfyniad ysgrifenedig Taliad Disgresiwn at Gostau Tai.

## **8. Pan na ellir talu Taliad Disgresiwn at Gostau Tai**

## **8.1 Nid yw Taliad Disgresiwn at Gostau Tai ar gael at y dibenion canlynol:**

1. I helpu gyda chostau Treth y Cyngor;
2. I dalu am unrhyw ddiffyg mewn Budd-dal Tai sy'n digwydd oherwydd adennill gordaliad;
3. I dalu am unrhyw daliadau gwasanaeth anghymwys megis prydau bwyd, costau tanwydd, gofal personol ac ati.

## **9. Mathau eraill o gymorth gyda Chostau Tai**

**9.1** Os na all talwr Treth y Cyngor fodloni ei rwymedigaeth treth gyngor, yna gall Cyngor Sir y Fflint ystyried dileu ei ddyled yn unol â'r Polisi Dyled Corfforaethol.

**9.2** Os bydd angen cymorth ar gwsmer gyda Blaendaliadau Rhent neu Rent ymlaen llaw, yna mae hwn ar gael gan adrannau eraill Cyngor Sir y Fflint.

## **10. Gordaliadau**

**10.1** Os canfyddir bod Taliad Disgresiwn at Gostau Tai wedi'i ordalu, byddwn yn ystyried a yw'n briodol ei adennill. Os byddwn yn penderfynu adennill unrhyw ordaliad gall hyn fod yn llawn neu'n rhannol.

**10.2** Pe bai'r gordaliad yn digwydd oherwydd camgymeriad ar ein rhan ni, ni fyddem fel arfer yn ceisio ad-daliad, oni bai bod y cwsmer wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd at y camgymeriad hwnnw, neu'n caniatáu'n fwriadol i Daliad Disgresiwn at Gostau Tai barhau i gael ei dalu mewn camgymeriad.

**10.3** Ni fyddwn yn adennill unrhyw ordaliad Taliad Disgresiwn at Gostau Tai o fudd-daliadau parhaus unigolyn. Byddai trefniant ar wahân yn cael ei drafod.

## **11. Casgliad**

**11.1** Ni fwriedir i'r polisi hwn fod yn gwbl anhyblyg ac ni ddylid ei ddehongli felly. Mewn cynllun dewisol, bydd rhai achosion bob amser lle mae'r amgylchiadau'n arbennig neu'n anarferol, a'r sawl sy'n gwneud penderfyniad yn ystyried cyfiawnhau Taliad Disgresiwn at Gostau Tai. Mantais cynllun dewisol fel hwn, ni waeth pa fframwaith a ddefnyddir, yw bod modd dyfarnu taliadau a bod achos teilwng dros wneud hynny.

**11.2** Fodd bynnag, mae'r polisi hwn yn darparu strwythur ar gyfer penderfynu pwy ddylai gael Taliad Disgresiwn at Gostau Tai. Fe'i cynlluniwyd i gyflawni lefel resymol o degwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.